CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

STANDARDS COMMITTEE/STANDARDS COMMUNITY SUB-COMMITTEE

INFORMATION FOR PERSONS INTERESTED IN BECOMING INDEPENDENT (LAY) MEMBERS

The Local Government Act 2000 requires the County Council, in common with all other county councils in Wales, to establish a Standards Committee.

The composition and the work of the Committee is governed largely by the requirements in the Local Government Act 2000, regulations made by The National Assembly for Wales and the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

The Committee comprises five Independent (Lay) Members together with four County Councillors. The Committee has a Sub-Committee dealing with all standards matters relating to Town and Community Councillors. The five Independent (Lay) Members sit on this Community Sub-Committee together with one of the County Councillors on the main Standards Committee and three Town/Community Councillors, one from each area Brecknockshire, Radnorshire and Montgomeryshire.

The Standards Committee has a role in respect of the 68 Councillors [from May 2022] and the Co-opted members of Powys County Council and the Sub-Committee has a role in respect of the 1041 Community Councillors on the 110 town and community councils in Powys**.**

The Chair and Vice-Chair of the Standards Committee must be appointed from amongst the Independent (Lay) Members.

Following the termination of office of one of the Independent (Lay) Members the County Council is seeking to find a suitable person, resident within the County, to fill this vacancy. The first term of office will be for a period of between four and six years and there is then the opportunity to extend the term of office for a second term which is for a maximum of four years.

The role of the Standards Committee in relation to County Councillors and Co-opted Members of the County Council, as laid down in the Local Government Act 2000 and the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, is as follows:-

(1) promoting and maintaining high standards of conduct by councillors and co-opted members and

(2) assisting the councillors and co-opted members to observe the Members' Code of Conduct.

In particular the Committee has the following specific functions:-

(1) advising the Council on the adoption or revision of the Members' Code of Conduct;

(2) monitoring the operation of the Members' Code of Conduct; and

(3) advising, training or arranging to train councillors and co-opted members on matters relating to the Members' Code of Conduct.

In addition, the Committee will also:-

(i) grant dispensations to councillors and co-opted members from requirements relating to interests set out in the Members' Code of Conduct.

(ii) dealing with any reports from a case tribunal or interim case tribunal, and any report from the Monitoring Officer on any matter referred to that officer by the Public Services Ombudsman for Wales

(iii) oversee the Council's "Whistle-blowing" regime.

(iv) providing advice to individual councillors on such issues as the treatment of personal interest and on conduct matters generally.

(v) determine appropriate action on matters referred to it by the Public Services Ombudsman.

(vi) overseeing the Register of Interest of Members and co-opted members.

(vii) overseeing the Council's rules and protocols on accountability of members.

(viii) overseeing the attendance of Members and Co-opted Members at committees.

(ix) overseeing the training of Members serving on all committees of the Council;

(iix) ensuring group leaders have access to advice and training to support them in duties to promote and maintain high standards of conduct and to monitor group leaders' compliance with those duties

(iiix) after the end of each financial year make an annual report to the authority describing how the committee's functions have been discharged during the financial year and setting out an overview of conduct matters within the council.

The Standards Community Sub-Committee will have the roles and functions in relation to the Town and Community Councils in Powys and members of those Councils.

The Standards Committee and its Sub-Committee normally meet on the same day between 3 or 4 times a year with additional meetings to deal with specific business, for example investigations referred to the Committee/Sub-Committee by the Ombudsman, or requests for dispensations.

The Independent (Lay) Members and the three Town and Community Council members on the Sub-Committee receive a Co-optees Allowance together with travel expenses, in line with the County Council's scheme for such payments to councillors. The Co-optees Allowance will be at the rate of £105 for a half day (up to 4 hours) and £210 for a full day (over 4 hours). Preparation and travel time are included in the calculation of hours. Travel expenses may also be claimed.

Criteria for the appointment of independent members have been set by the County Council, and these are attached. Applications for membership will be considered against those criteria.

If you wish to apply please do so by either:

- downloading a copy of the application form from the website or
- requesting a copy of the application form from carol.johnson@powys.gov.uk
- Tel: 01597 826206

The closing date for applications is 7 April 2022.

Applications will be considered by an Appointments Panel of five members - two of the current Independent (Lay) Members of the Standards Committee, one of the four county councillors sitting on the Standards Committee, one Town/Community Councillor sitting on the Standards Community Sub-Committee and one lay person who will act as Chair.

Any further enquiries should be addressed to:-

Clive Pinney
Head of Legal and Democratic Services (Monitoring Officer)
County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Tel. (01597) 826746

or one of the following at the above address:
Debby Jones, Deputy Monitoring Officer
Tel. (01597) 826325

Carol Johnson, Democratic Services Officer
Tel. (01597) 826206

-*CYNGOR SIR* POWYS COUNTY COUNCIL

PWYLLGOR SAFONAU / IS-BWYLLGOR SAFONAU CYNGHORAU CYMUNED

GWYBODAETH I BOBL SYDD Â DIDDORDEB MEWN BOD YN AELODAU ANNIBYNNOL (LLEYG)

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i'r Cyngor Sir, fel pob cyngor sir arall yng Nghymru, sefydlu Pwyllgor Safonau.

Mae cyfansoddiad a gwaith y Pwyllgor yn cael ei reoli i raddau helaeth gan y gofynion yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pum Aelod Annibynnol (Lleyg) ynghyd â phedwar Cynghorydd Sir. Mae gan y Pwyllgor Is-Bwyllgor sy'n ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â safonau ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned. Mae'r pum Aelod Annibynnol (Lleyg) yn eistedd ar yr Is-bwyllgor Cymunedol hwn ynghyd ag un o'r Cynghorwyr Sir ar y prif Bwyllgor Safonau a thri Chynghorydd Tref /Cymuned, un o bob un o'r tair ardal (Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn).

Mae gan y Pwyllgor Safonau rôl mewn perthynas â'r 68 o Gynghorwyr [o fis Mai 2022] ac aelodau Cyfetholedig Cyngor Sir Powys, ac mae gan yr Is-bwyllgor rôl mewn perthynas â'r 1041 o Gynghorwyr Cymuned ar y 110 o gynghorau tref a chymuned ym Mhowys.

Rhaid i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gael eu penodi o blith yr Aelodau Annibynnol (Lleyg).

Wedi i gyfnod mewn swydd un o'r Aelodau Annibynnol (Lleyg) ddod i ben, mae'r Cyngor Sir yn ceisio dod o hyd i berson addas, sy'n byw yn y Sir i lenwi'r swydd wag hon. Bydd y tymor cyntaf yn y swydd am gyfnod o rhwng pedair a chwe blynedd ac mae yna gyfle wedyn i ymestyn tymor y swydd am ail dymor sydd am uchafswm o bedair blynedd.

Mae rôl y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â Chynghorwyr Sir ac Aelodau Cyfetholedig y Cyngor Sir, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, fel a ganlyn: -

(1) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig, a

(2) cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Gôd Ymddygiad yr Aelodau.

Yn arbennig mae gan y Pwyllgor y swyddogaethau penodol canlynol: -

(1) cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad yr Aelodau;

(2) monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Aelodau; a

(3) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig, ar faterion sy'n gysylltiedig â Chôd Ymddygiad yr Aelodau.

Yn ogystal, bydd y Pwyllgor hefyd yn: -

(i) rhoi gollyngiadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig o ofynion sy'n gysylltiedig â buddiannau a nodir yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau.

(ii) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro am unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(iii) goruchwylio trefn "Chwythu'r Chwiban" y Cyngor.

(iv) rhoi cyngor i gynghorwyr unigol ar faterion fel ymdrin â buddiant personol ac ar faterion ymddygiad yn gyffredinol.

(v) penderfynu pa gamau sy'n briodol ynghylch materion a gyfeirir ato gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

(vi) goruchwylio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

(vii) goruchwylio rheolau a phrotocolau'r Cyngor ynghylch atebolrwydd yr aelodau.

(viii) goruchwylio presenoldeb Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig mewn pwyllgorau;

(ix) goruchwylio'r gwaith o hyfforddi Aelodau sy'n gwasanaethu ar holl bwyllgorau'r Cyngor.

Bydd gan yr Is-bwyllgor Safonau mewn Cynghorau Cymuned y rolau a'r swyddogaethau mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned ym Mhowys ac aelodau'r Cynghorau hynny.

Mae'r Pwyllgor Safonau a'i Is-Bwyllgor yn cyfarfod fel arfer ar yr un diwrnod rhyw 3 neu 4 gwaith y flwyddyn gyda chyfarfodydd ychwanegol i ddelio â busnes penodol, er enghraifft ymchwiliadau a gyfeirir at y Pwyllgor / Is-bwyllgor gan yr Ombwdsmon, neu geisiadau am ollyngiadau.

Mae'r Aelodau Annibynnol (Lleyg) a'r tri aelod Cynghorau Tref a Chymuned ar yr Is-bwyllgor yn derbyn Lwfans Aelodau Cyfetholedig ynghyd â chostau teithio, yn unol â chynllun y Cyngor Sir ar gyfer taliadau o'r fath i gynghorwyr. Lwfans yr Aelodau Cyfetholedig fydd £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr) ac £210 am ddiwrnod llawn (dros 4 awr). Mae amser paratoi a theithio yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r oriau. Gellir hawlio costau teithio hefyd.

Gosodwyd y meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol gan y Cyngor Sir, ac mae'r rhain wedi eu hatodi. Bydd ceisiadau am aelodaeth yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf hynny.

Os hoffech wneud cais gofynnir i chi wneud hynny naill ai drwy

- lenwi'r ffurflen gais ar-lein neu
- lawrlwytho copi o'r ffurflen gais o'r wefan neu
- ofyn am gopi o'r ffurflen gais gan carol.johnson@powys.gov.uk
- Ffôn (01597) 826206

7 Ebrill 2022 yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan Banel Penodi sy'n cynnwys pum aelod - dau o blith Aelodau Annibynnol (Lleyg) cyfredol y Pwyllgor Safonau, un o'r pedwar cynghorydd sir sy'n eistedd ar y Pwyllgor Safonau, un Cynghorydd Tref/Cymuned sy'n eistedd ar yr Is-bwyllgor Safonau mewn Cynghorau Cymuned ac un person lleyg a fydd yn gweithredu fel Cadeirydd.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at: -

Clive Pinney
Cyfreithiwr y Cyngor

Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys LD1 5LG

Ffôn: 01597 826746

Neu un o'r canlynol yn y cyfeiriad uchod:
Debby Jones, Dirprwy Swyddog Monitro
Ffôn. (01597) 826325

Carol Johnson, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Ffôn (01597) 826206